Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Siwan Gregory**

**Caerdydd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Gorffennaf 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gartrefol yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent wedi setlo ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Caiff y plant gyfleoedd gwerth chweil i wneud penderfyniadau am yr adnoddau i'w defnyddio a pha weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae ganddynt gydberthnasau cryf gyda'r gwarchodwr plant, sy'n ymateb yn gadarnhaol i'w teimladau.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn sicrhau ei bod yn cwblhau hyfforddiant priodol. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw plant yn ddiogel a'r prosesau ar gyfer gwneud hynny. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio rhwng y plant a'u hymddygiad yn llwyddiannus. Mae'n hybu iechyd a llesiant y plant yn y lleoliad yn effeithiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sy'n ddiogel. Mae'n creu amgylchedd croesawgar lle gall y plant chwarae a dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal a chadw'r amgylchedd i safon dda. Mae'n darparu adnoddau sy'n hyrwyddo pob maes o ran dysgu a datblygu'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn effeithiol. Mae'n cadw cofnodion pwrpasol ac yn eu diweddaru. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ac yn nodi ffyrdd o wella'r lleoliad. Mae'n sicrhau bod y plant a'u rhieni yn chwarae rôl fuddiol yn y broses. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarn ac yn gadarnhaol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn gallu ymlacio dan ofal y gwarchodwr plant. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn teimlo'n gyfforddus wrth fynegi eu hunain. Mae'r plant yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant ac yn gwybod ei bod hi'n gwerthfawrogi eu syniadau a'u barn. Gwelsom blentyn yn awgrymu y dylent chwarae gêm cuddio ac ymunodd y gwarchodwr plant yn frwdfrydig. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er enghraifft, maent yn cael rhyddid i chwarae ac yn dewis pa deganau yr hoffent chwarae â nhw a pha weithgareddau yr hoffent eu gwneud.

Mae'r plant yn hyderus i fynegi eu hunain a gwneud ceisiadau, gan eu bod yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn ymateb yn briodol. Er enghraifft, maent yn dewis yr hyn y maent am ei wneud nesaf, fel chwarae ag adnoddau neu eistedd ar lin y gwarchodwr plant i ddarllen llyfr. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gadarn ac yn werth chweil. Maent yn trafod eu gweithgareddau ac yn ateb cwestiynau a ofynnir gan y gwarchodwr plant yn fedrus. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau chwarae rôl ‘diwrnod ar y traeth’ yn yr ardd. Roedd y gwarchodwr plant yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ac yn eistedd gyda'r plant ar y llawr, gan ofyn cwestiynau perthnasol ac awgrymu syniadau. Roed y plant yn ymateb yn gyson dda i'r cwestiynau.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn y lleoliad. Maent yn chwarae'n hapus â'i gilydd ac ochr yn ochr â'i gilydd ac mae hyd yn oed y plant bach iawn yn dysgu sut i rannu, cymryd eu tro a helpu ei gilydd wrth chwarae. Maent yn parchu'r gwarchodwr plant ac yn annwyl tuag ati, ac maent yn cydweithredu'n dda. Er enghraifft, gwelsom fod y plant yn awyddus i helpu'r gwarchodwr plant baratoi ar gyfer amser byrbryd yn yr ardd drwy osod mat picnic. Mae'r plant yn cael cyfleoedd pellach i feithrin cyfeillgarwch gan eu bod yn treulio amser mewn grwpiau plant bach yn y gymuned leol yn rheolaidd.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, gwelsom y plant yn gwenu ac yn chwerthin yn frwdfrydig wrth chwarae â'r adnoddau yn yr ardd ac yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser wrth iddynt dorri bwyd tegan. Mae'r plant yn awyddus i rannu'r hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, dangosodd un plentyn bryfyn yr oedd wedi dod o hyd iddo ar y sleid yn yr ardd.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus, gan eu galluogi i wneud pethau drostyn nhw eu hunain. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol gyda rhywfaint o oruchwyliaeth a chyfarwyddyd gan y gwarchodwr plant. Maent yn hongian eu cotiau a'u bagiau yn y cyntedd. Mae'r plant yn gallu cael gafael ar adnoddau yn hawdd neu'n gofyn yn hyderus i'r gwarchodwr plant am help pan na fyddant yn gallu dod o hyd i rywbeth.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau da i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, gan sicrhau bod pob arwyneb yn lân a bod y plant yn golchi eu dwylo'n rheolaidd cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn y polisi ar newid cewynnau, gan sicrhau bod yr ardal newid yn cael ei diheintio ar ôl newid cewyn. Fodd bynnag, ni chaiff cyfarpar diogelu personol ei ddefnyddio yn unol â'r canllawiau ar atal a rheoli heintiau. Mae ganddi ddealltwriaeth dda iawn o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac mae'n gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn os bydd sefyllfa yn ymwneud ag amddiffyn plant yn codi. Caiff y cofnodion digwyddiadau, damweiniau a meddyginiaeth eu dyddio a'u llofnodi. Mae'r plant yn dod â'u bwyd eu hunain ac mae dŵr ar gael iddynt drwy'r dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod beth yw anghenion deietegol ac anoddefiadau'r plant. Mae'n sicrhau bod y plant yn chwarae'n gorfforol yn yr awyr agored ac yn cael awyr iach yn rheolaidd drwy ymweld â pharciau ac atyniadau lleol.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymatebol ac yn ofalgar iawn mae'n rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes. Mae'n fodel rôl da ac yn defnyddio digon o ganmoliaeth ac anogaeth i gefnogi'r plant ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Mae cwrteisi yn bwysig ac roedd y gwarchodwr plant yn atgyfnerthu hyn yn gyson â'r plant. Clywsom y plant a'r gwarchodwr plant yn dweud "*Os gwelwch yn dda*" a "*Diolch*" yn gyson drwy gydol y dydd. Mae'n meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad y plant a'u hanghenion amrywiol, a sut y gall y rhain effeithio ar ymddygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson, sy'n briodol i anghenion y plant yn ei gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ac yn datblygu anghenion dysgu'r plant drwy arsylwi ar eu hanghenion, eu dewisiadau a'u galluedd. Mae'n cynllunio gwaith crefft ar gyfer y plant bob tymor yn seiliedig ar wyliau a newidiadau tymhorol, fel y Nadolig, y Pasg, Sul y Mamau a'r gwanwyn. Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin datblygiad ieithyddol y plant drwy gynnal trafodaethau pwrpasol â nhw yn ystod amser stori. Er enghraifft, wrth ddarllen y llyfr 'Diwrnod Elfed', sicrhaodd y gwarchodwr plant ei bod yn siarad am enwau lliwiau a rhannau o'r corff. Roedd y drafodaeth â'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn adnabod y plant yn ei gofal yn dda iawn. Mae'n defnyddio 'siart flodau' i gofnodi arsylwadau ac i ddangos datblygiad y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau y tu allan i'r cartref sy'n cefnogi dysgu a datblygiad y plant. Er enghraifft, gweithgareddau chwarae meddal sy'n cefnogi datblygiad corfforol y plant ac yn eu hannog i archwilio.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant. Mae'n cadw'r drws ffrynt ar glo pan fydd y plant yn bresennol, ac yn sicrhau bod ymwelwyr yn dangos prawf adnabod ac yn mewngofnodi. Mae ardal yr ardd yn ddiogel ac wedi'i hamgylchynu gan ffens ddiogel. Caiff asesiad risg dyddiol ei gwblhau ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn monitro ac yn ymateb i unrhyw beryglon posibl mewn modd amserol. Mae amrywiaeth bwrpasol o asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan o'r cartref ac amrywiaeth o weithgareddau a gwibdeithiau sy'n nodi'r risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r mesurau sydd ar waith i'w lleihau. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant ac yn eu cofnodi fel rhan o'i chofnod ymarferion tân. Mae'n sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y cartref a'r car, ac mae ganddi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar er mwyn gwneud yn siŵr bod y plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Mae'n darparu digonedd o deganau, gemau a chyfarpar i'r plant ac yn eu trefnu'n dda fel bod modd i'r plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, ac mae wedi'i threfnu'n ddeniadol er mwyn i'r plant allu mynd ati i archwilio'n rhydd ac i wneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae'r ardd yn hyfryd ac yn ddiogel, ac yn cynnwys digon o adnoddau. Mae wedi'i rhannu'n ardaloedd gwahanol sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu gwerthfawr i'r plant fwynhau chwarae yn yr awyr agored. Er enghraifft, ardal gysgodol er mwyn chwarae ym mhob tywydd, ardal ar gyfer beiciau a theganau reidio, tŷ bach twt, pabell chwarae a sleid. Gellir cyrraedd yr ardd yn uniongyrchol o'r ystafell chwarae ac mae'r plant yn rhydd i ddefnyddio'r ardal pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae lolfa fawr arall hefyd, a ddefnyddir yn bennaf fel ardal i'r plant iau gysgu ac i'r plant hŷn ymlacio ar ôl ysgol. Mae toiled ar gael ar lawr gwaelod yr eiddo y gall y plant ei ddefnyddio'n annibynnol.

Mae'r adnoddau yn ysgogol, yn briodol i oedran y plant ac yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Gall y plant gael gafael ar yr adnoddau hyn yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn addas ar gyfer ystod oedran y plant. Gall y plant eistedd yn gyfforddus, gan fod dodrefn o ansawdd uchel o faint sy'n addas i blant ar gael iddynt wrth ymgymryd â gweithgareddau ben bwrdd. Mae'r stôl gamu yn yr ystafell ymolchi yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth iddynt ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr holl deganau a'r adnoddau mewn cyflwr da ac yn lân er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Mae cymysgedd o adnoddau pren a phlastig ar gael. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod adnoddau amlddiwylliannol ar gael i hyrwyddo amrywiaeth. Mae llyfrau Cymraeg a Saesneg ar gael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae ganddi ddatganiad o ddiben llawn gwybodaeth, sy'n cynnwys y wybodaeth ofynnol ac sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau y mae'n eu darparu i'r rhieni, gan gynnwys rhai ar ddiogelu, cwynion ac anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod o sefydliad cymorth gwarchod plant. Mae'r sefydliad hwn yn ei helpu i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am ei busnes, ac mae'n defnyddio enghreifftiau o'r ddogfennaeth a ddarperir gan y sefydliad. Mae gan y gwarchodwr plant gontractau â'r rhieni, ac mae ganddi weithdrefn addas ar gyfer cael caniatâd ganddynt ar gyfer gweithgareddau fel rhoi eli haul ar y plant, tynnu ffotograffau, a darparu triniaeth feddygol frys. Mae ganddi gofnodion addas sy'n dangos y plant sy'n mynychu'r lleoliad ynghyd ag union ddyddiadau ac amseroedd.

Mae gan y gwarchodwr plant system ddefnyddiol ar waith i adolygu ei lleoliad. Mae'n cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu adborth gan y rhieni a'r plant, gan amlinellu cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae'n myfyrio ar ei hymarfer ac yn dangos ymrwymiad parhaus i wneud gwelliannau i'w lleoliad. Er enghraifft, mae wedi defnyddio grant i ddatblygu'r amgylchedd dysgu awyr agored o ganlyniad i adborth gan y plant. Mae gan y gwarchodwr plant drefniadau ar waith i ddelio â chwynion a phryderon posibl. Mae wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn gymwys ac yn brofiadol iawn ym maes datblygiad plant ac mae'n ymrwymedig i'w datblygiad proffesiynol parhaus ei hun. Mae wedi ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol yn rheolaidd er mwyn meithrin ei sgiliau a'i gwybodaeth ymhellach. Mae gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gwarchodwr plant yn gyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni er mwyn sicrhau bod y plant yn ei gofal yn cael y cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar y gofal a roddir i'w plant. Maent yn teimlo bod y gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthynas dda â'r plant a'u bod wrth eu bodd yn mynd i'r lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am brofiadau a datblygiad eu plant drwy roi adborth ar lafar yn ystod amseroedd casglu a rhannu gwybodaeth a lluniau drwy negeseuon personol drwy ap webform.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ystyried cynnal Archwiliad Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn llywio'r gweithdrefnau hylendid. |
| Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd. |
| Ystyried arddangos lluniau o'r plant a'u gwaith celf yn y lleoliad er mwyn annog ymdeimlad o berthyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/07/2024